

**GORCHYMYN CYNGOR BRO MORGANNWG  
(GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A  
LLWYTHO A MANNAU PARCIO)  
(GORFODI SIFIL) (DIWYGIAD) (RHIF 9) 2022**

1. Ar 21 Chwefror 2023 gwnaeth Cyngor Bro Morgannwg, wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill, wneud Gorchymyn i osod a diwygio'r cyfyngiadau parcio a nodir yn yr atodlen isod.
2. Daw'r Gorchymyn i rym ar 26 Chwefror 2023 neu ar y dyddiadau y caiff yr arwyddion a'r marciau ffordd eu gosod, p'un bynnag sydd hwyraf, ac fe'i gelwir yn "Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodi Sifil) (Diwygiad) (Rhif 9) 2022".
3. Gellir archwilio copi o'r Gorchymyn a'r cynlluniau'n dangos yr ardaloedd yr effeithir arnynt ar wefan y Cyngor yn [www.valeofglamorgan.gov.uk/cy](http://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy)
4. Os dymunwch gwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaethau ynddo ar y sail nad yw'n unol â'r pwerau a ddyfarnwyd gan y Ddeddf uchod neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf, neu unrhyw offeryn a wnaed dan y Ddeddf mewn perthynas â'r Gorchymyn, gallwch, o fewn chwe wythnos o 26 Chwefror 2023, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwn.

Mae'r Gorchymyn Rheoli Traffig canlynol i'w ddiwygio fel a ganlyn:

**Gorchymyn Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Mannau Parcio  
(Gorfodi Sifil) 2013**

**ATODLEN**

**Ychwanegu atodlen AJ64 at y map**

**Gwahardd Aros a Llwytho, a Dadlwytho ar Unrhyw Adeg**

**Rhose Way, y Rhws**

Ar ochr y gorllewin, o'r gyffordd ddeheuol â Greenmeadow Way tua'r gogledd am 17.1m.

Ar ochr y de, o bwynt 58.5m i'r gorllewin o'r gyffordd â chornel ogledd-orllewinol allanfa maes parcio'r ysgol tua'r gorllewin am 21.5m.

Ar ochr y de-orllewin, o'r gyffordd â chornel dde-ddwyreiniol mynedfa maes parcio'r ysgol tua'r de-ddwyrain ac yna tua'r gogledd-orllewin am 79.3m.

Ar ochr y dwyrain o bwynt 20.8m i'r de o'r gyffordd â Greenmeadow Way tua'r de ac yna tua'r dwyrain am 39.2m.

**Greenmeadow Way**

Ar ochr y gogledd-orllewin, o'r gyffordd â Rhose Way tua'r de-orllewin am 12.2m.

Ar ochr y de-ddwyrain o'r gyffordd â Rhose Way tua'r de-orllewin am 13.2m.

**Gwahardd Aros, Llwytho a Dadlwytho o ddydd Llun i ddydd Gwener o 8am tan 9.30am ac o 2.30pm tan 4pm.**

**Rhose Way, y Rhws**

Ar ochr y dwyrain, o'r gyffordd â Greenmeadow Way tua'r de am 20.8m.

Ar ochr y gogledd-ddwyrain, o bwynt 2m i'r gogledd-orllewin o wal flaen eiddo rhif 263-271 tua'r gogledd-orllewin ac yna tua'r gorllewin am 93.2m.

Ar ochr y de-orllewin, o'r gyffordd â chornel ogledd-orllewinol mynedfa maes parcio'r ysgol tua'r gogledd-orllewin am 41.4m.

Ar ochr y de, o bwynt 43.9m i'r gorllewin o'r gyffordd â chornel ogledd-orllewinol allanfa maes parcio'r ysgol tua'r gorllewin am 14.9m.

Dyddiedig 23 Chwefror 2023.

Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai

Cyngor Bro Morgannwg, Yr Alpau, Gwenfô CF5 6AA